Cymru'n cyfri
Cyfrifiad2001

# Pam y dylai DG ccc ‘gyfri’

Fis Ebrill nesaf, cynhelir yr ymarfer mwyaf o bosibl i’w gynnal erioed yn y DG yn ystod cyfnod o heddwch. Bydd Cyfrifiad y Boblogaeth 2001, sydd i’w gynnal ddydd Sul 29 Ebrill, yn ceisio cyfrif pawb sy’n byw ym Mhrydain.

Bydd yr ymarfer anferthol hwn yn darparu ffynhonnell newydd helaeth o ddata ar gyflwr y genedl – gan gwmpasu poblogaeth, ethnigrwydd, iechyd, cymwysterau a chyflogaeth i enwi ond ychydig.

Darpara data’r Cyfrifiadau, a gynhelir bob deng mlynedd, y meincnodau ar gyfer mesur newid cymdeithasol ac economaidd ym Mhrydain. Gwna hyn ef yn adnodd hanfodol ar gyfer cynllunwyr, rheolwyr a marchnatwyr trwy’r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol.

Mae cymryd rhan yn y Cyfrifiad a’i hyrwyddo i eraill er budd i bawb. Mae’n helpu cymunedau i gael arian cyhoeddus ar gyfer popeth o ysgolion ac ysbytai i ffyrdd a gwasanaethau cymdeithasol. Dyrennir tua £50 biliwn o wariant awdurdodau lleol bob blwyddyn gan ddefnyddio data’r Cyfrifiad.

## Pam bod angen busnesau ar Gyfrifiad 2001

Nid yw’r ymgyrch hysbysebu a lansiwyd gan y Llywodraeth i hysbysu’r gymdeithas am y Cyfrifiad yn debygol o gyrraedd pob un o’r rhai hynny y mae angen eu cyfrif. Er mwyn cyflawni’r Cyfrifiad mwyaf cyflawn a chywir sy’n bosibl, mae’n rhaid i Gyfrifiad 2001 recriwtio partneriaid cryf. Fel deiliad diddordeb allweddol yn y gymdeithas sydd mewn cyswllt cyson â gweithwyr a chwsmeriaid, mae busnesau yn bartner delfrydol ar gyfer yr ymarfer hwn.

## Pam bod angen Cyfrifiad 2001 ar fusnesau

Bydd y Cyfrifiad yn darparu dim llai na 2 biliwn o ystadegau unigol, a bydd yn cyhoeddi canlyniadau sy’n cwmpasu ardaloedd gyda chyn lleied â thua 100 o gartrefi hyd at y lefel genedlaethol. Diogelir preifatrwydd a chyfrinachedd y wybodaeth bersonol a gyflenwir.

Mae busnesau’n un o brif ddefnyddwyr data’r Cyfrifiad: mae cwmnïau o bob math yn cyfuno’r data gydag ystadegau o ffynonellau eraill i ffurfio darlun demograffig o’r DG. Dechreuir cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2001 yn ystod Gwanwyn 2003.

Mae’r defnydd a wneir o ddata’r Cyfrifiad yn cynnwys:

- gwerthuso marchnadoedd posibl
- lleoli swyddfeydd, canghennau, canolfannau siopa, ffatrïoedd a chanolfannau dosbarthu newydd
- gwneud yn siwr bod ymgyrchoedd hysbysebu yn cyrraedd y cymunedau cywir.

YSTADEGAU GWLADOL

**Paratowyd gan Adran y Cyfrifiad, Swyddfa Ystadegau Gwladol**
**Tel: 01329 813800**
**e-bost: census.customerservices@ons.gov.uk**
**gwefan: www.statistics.gov.uk**

Cymru'n cyfri
Cyfrifiad2001

**Taflenni ffeithiau eraill:**

1. Y Cyfrifiad
2. Pam Bod Angen Cyfrifiad Arnom
3. Cyfrifiad 2001 – Beth sy'n Newydd?
4. Cyfrif Pawb – y Sialens Fawr
5. Trefniadaeth y Cyfrifiad
6. Swyddi'r Cyfrifiad
7. Y Cyfrifiad a'r Gyfraith
8. Y Cyfrifiad drwy'r Oesoedd
9. Cwestiynau'r Cyfrifiad

Mae dim llai na 16 o'r 41 cwestiwn ar ffurflen Cyfrifiad 2001 yn Lloegr yn ymwneud â chyflogaeth, gan gynnwys galwedigaeth, diwydiant, profiad goruchwyliol, a dull o deithio i'r gwaith. O ganlyniad, y Cyfrifiad yw'r ffynhonnell fwyaf cynhwysfawr o wybodaeth am y farchnad lafur ar y lefel leol. Defnyddia adrannau personél ddata'r Cyfrifiad i fonitro tueddiadau yn y farchnad lafur, gan gynnwys cronfeydd llafur a sgiliau mewn meysydd penodol.

## Sut gall busnesau helpu

Gall adrannau Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus:

- Argraffu negeseuon y Cyfrifiad ar ddeunydd pacio cynnyrch, bagiau, anfonebau, gwefannau a dulliau eraill o gyfathrebu â chwsmeriaid.
- Dangos deunydd man gwerthu'r Cyfrifiad yn y siop.

Gall adrannau Cysylltiadau Personél/Mewnol:

- Rhoi negeseuon y Cyfrifiad mewn papurau newydd, cylchgronau, amlenni cyflogres, ac ar fewnrwyd y cwmni.
- Annog gweithwyr a staff sydd wedi ymddeol i gymryd swyddi rhan amser, dros dro gyda'r Cyfrifiad. Bydd angen gweithlu maes o tua 70,000 o Gyfrifwyr (y rhai sy'n cynnal y Cyfrifiad) ac Arweinwyr Tîm yng Nghymru a Lloegr ar Gyfrifiad 2001, a bydd y broses recriwtio yn dechrau ym mis Ionawr 2001. Gellir ffitio'r gwaith o fod yn gyfrifydd o gwmpas swydd gyfredol.

## Codau post y gweithle

Mae un cwestiwn ar ffurflen y Cyfrifiad yn gofyn i bobl sydd yn gweithio roi cyfeiriad eu gweithle, gan gynnwys y cod post. Gan nad yw'r rhan fwyaf ohonom yn gwybod cod post llawn ein cyflogwr, bydd atgoffa pob gweithiwr o hyn yn gymorth ymarferol gwirioneddol wrth gyflawni Cyfrifiad cyflawn a chywir.

## Cyswllt ar gyfer gwybodaeth bellach:

Ymholiadau'r wasg yn unig:
Ffôn: 020 7533 5160

Ymholiadau cyhoeddus yn unig:
Census Customer Services
Room 4300S
Office for National Statistics
Segensworth Road
Titchfield
PO15 5RR

Ffôn: 01329 813800
Ffacs:01329 813587
ebost: census.customerservices@ons.gov.uk
gwefan: www.statistics.gov.uk